Cyngor Cymuned Cerrigydrudion
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 31ain Ionawr 2018

Presennol – Menai Hughes Cadeirydd, Prys Ellis, John D Jones, Ieuan Jones, Einion Edwards, Trystan Humphreys, Ffuon Williams, Cynghorydd Sir, Peter Lewis, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau - Maria Roberts, Guto Jones
Datgan diddordeb. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion -Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6ed Ragfyr 2017

Materion yn Codi

[1] Yr Heddlu
Nid oedd yr heddlu'n bresennol/

[1.1] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]
Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.2] Cae Llwyd/ Trafferthion Cwn
Y clerc i gwblhau 'r holiadur yn cytuno i wahardd cwn o'r cae chwarae.

[1.3] Diffibriliwr/Glasfryn
Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.4]Coed Mynwent Ucha'r Eglwys
Dywedodd y clerc ei fod yn disgwyl gair gan y cwmni ar gyfer y trefniadau.

[1.5] Llwybr Maes Aled
Deallwyd bod angen glanhau'r llwybr, y clerc i gysylltu gyda Haydn Roberts.

[1.6]Amaethwyr Corwen
Cyfeiriodd y clerc at lythyr gan Mr R P Jones yn cydnabod cwyn gan y Cyngor bod angen tacluso/glanhau o flaen y storfa yn y llan.

[1.7] Llwybr gyferbyn a'r Ysgol i Ffordd Cefn Brith
Nodwyd yn siomedig ateb y Cyngor Sir nad oedd arian ar gael i wneud llwybr yn y lleoliad uchod. Penderfynwyd anfon gair at Darren Millar AC i geisio ei gefnogaeth.

Y brif agenda

[1.8] Cyllideb 2018/19
Cymeradwywyd y gyllideb a baratowyd gan y clerc ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19

[1.9] Precept
Gan nodi'r costau i gefnogi'r llyfrgell a'r arian sydd wrth gefn, penderfynwyd gosod precept o £6,000.00 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19

[2] Materion Cynllunio

[a] Gosod mast mesur gwynt dros dro am gyfnod o 5 mlynedd hyd at 90m o uchder. Tir Coediog wedi'i leoli i Ogledd Pentrellyncymer.
[b]Newidiadau di-faterol i ganiatâd cais 0/43596. Codi pedwar tŷ fforddiadwy. Tir Cae'r Ffynnon, Cerrig-y-Drudion.
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ddau gais uchod.

[2.1] Baner Bro Hiraethog
Dywedodd y clerc bod Mrs Mair Owen wedi cynnig Baner Bro Hiraethog i'r Cyngor Cymuned.
Y clerc i gysylltu gyda Mrs Owen i gesio'r mesuriadau. Yn y cyfamser, cytunodd Menai Hughes i gysylltu gyda'r ganolfan ynlgun ac efallai ei leoli yno.

[2.2] Strategaeth Datblygu Hiraethog
Cytunodd Ffuon Williams a Einion Edwards fynychu'r cyfarfod ym Mro Cernyw ar y 13eg Chwefror 2018.

[2.3] Apêl Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019
Nodwyd bod Menai Hughes yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar y Pwyllgor Apêl.

[2.4] Brigâd Dan/Cerrig
Deallwyd nad oedd digon o griw ar gyfer ymateb i alwadau brys ac mai'r prif reswm ydi, nag oes rhaglen hyfforddiant yn cael ei weithredu gan y Gwasanaeth Tan. Y clerc i anfon at y Prif Swyddog Tan yn amlinellu pryderon y Cyngor. Cytunodd y Cyng Peter Lewis hefyd i godi'r mater yng nghyfarfod nesaf gyda'r Gwasanaeth Tan.

[2.5] Pont yr Hendre/ Pentrellyncymer
Y clerc i anfon at y Cyngor Sir bod canllaw'r bont angen sylw.

[2.6] Gwasanaeth Sgip
Y clerc i drefnu gwasanaeth Sgip at ddiwedd mis Mawrth

[2.7] Derbyniadau
Taliadau'r fynwent 450 £50.00
Llogi'r Ystafell Blwyf Arbed Amaeth £45.00

[2.8] Taliadau
Siec 100962 Fflam Eryri Cynhaliaeth Llyfrgell/Ystafell Blwyf £223.50
100963 Swyddfa Archwilio Cymru/Archwilio Cyfrifon £181.95
100964 I W Ferguson Cynnal y Wefan £66.79
100965 Scottish Power £32.14
100966 Cyngor BS Conwy Costau Etholiad £152.58
100967 Trebor Jones Cynhaliaeth y fynwent £517.00
100968 Menai Hughes Gofalu am yr Ystafell Blwyf £311.0

Yn y banc 29/1/2018 Cyfrif [1] £10724.16
[2] £7086.91

Cadeirydd _____